# **ARIANNU** HEDDLU GOGLEDD CYMRU / **FUNDING** NORTH WALES POLICE **2023/2024**

Yn ogystal â bod yn llais i chi ym maes plismona, rhan allweddol o fy rôl fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yw gosod y praesept blynyddol, sef y darn hwnnw o Dreth y Cyngor sy'n talu am blismona. Mae'r lefel rwyf yn gosod y praesept yn penderfynu cyfanswm y gyllideb sydd ar gael ar gyfer plismona yng Ngogledd Cymru, ac mae'n allweddol i'n gweledigaeth i wneud yr ardal y lle mwyaf diogel yn y Deyrnas Unedig.

Yn dilyn ymgynghoriad gyda'r cyhoedd, bydd y praesept plismona yn cynyddu 5.14% ar gyfer eiddo Band D. Mewn geiriau eraill, 31c yr wythnos (neu £16.29 y flwyddyn) ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24. Mae hyn o dan lefel chwyddiant, a'r cynnydd lleiaf yng Nghymru. Serch hynny, nid penderfyniad hawdd oedd hwn i mi, gan ei fod yn eglur i mi o ymatebion i'r ymgynghoriad fod llawer ohonom yn teimlo pwysau'r argyfwng costau byw. Ystyriwyd pob barn ac maent wedi'u pwyso a mesur o ran yr angen i ddarparu digon o gyllid - a'r gwerth gorau am arian - wrth ddiogelu pobl Gogledd Cymru.

Mae hefyd yn glir i mi o siarad â phobl eu bod eisiau gweld gwasanaeth heddlu mor effeithlon, effeithiol ac mor amlwg â phosibl. Mae pobl hefyd eisiau gweld pwyslais ar droseddau cefn gwlad a bywyd gwyllt, atal cam-drin domestig, gwarchod plant a phobl ifanc, a diogelu aelodau bregus o'n cymdeithas. Yn olaf, maent eisiau ein gweld ni'n ymdrin ag achosion craidd troseddu a chynorthwyo adsefydlu troseddwyr. Mae'r neges hon gan bobl hefyd yn adlewyrchu'r blaenoriaethau o fewn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd o gael cymdogaethau diogelach, cefnogi dioddefwyr a chymunedau a chreu system cyfiawnder troseddol deg ac effeithiol.

Yr wyf yn hynod o falch o'r gwaith a gyflawnwyd gan fy swyddfa, swyddogion, staff a gwirfoddolwyr Heddlu Gogledd Cymru a'n partneriaid. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae ein cyflawniadau'n cynnwys:

- 10 SCCH newydd ar draws Gogledd Cymru.
- Llwyddo i gael cais o £1.5 miliwn ar gyfer arian o'r Swyddfa Gartref i wneud y strydoedd yn fwy diogel yng Nghaergybi, Wrecsam a Glannau Dyfrdwy.
- Gwasanaethau Eiriolaeth Trais Domestig Annibynnol (IDVA) yn Ysbytai Wrecsam Maelor a Glan Clwyd yn cynnig cyngor a chefnogaeth i ddioddefwyr trais domestig a thrais rhywiol.
- Lansio Strategaeth Cyfiawnder Merched Gogledd Cymru i helpu mynd i'r afael â pham mae merched yn troseddu ac i atal trosedd.

Gyda Heddlu Gogledd Cymru yn gorfod canfod £39 miliwn o arbedion ers 2010 - mae £3.75 miliwn wedi'i ganfod ar gyfer 2023-24 - bydd y cynnydd yn y praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn cynorthwyo i ariannu sawl rôl a menter. Mae'r rhain yn cynnwys y ddalfa, swyddfa'r crwner, cefnogaeth wyddonol a data. Bydd meddalwedd fforensig hefyd yn cael ei uwchraddio. Yn ychwanegol bydd chwe rôl Swyddog Cefnogi Cymuned yr Heddlu (SCCH) newydd yn cael eu creu.

Oherwydd y craffu cadarn yr wyf wedi rhoi i Heddlu Gogledd Cymru am yr hyn a fydd yn cael ei gyflawni, credaf fod y praesept plismona hwn yn fforddiadwy i drethdalwyr y cyngor ac yn sicrhau bod gan Heddlu Gogledd Cymru ddigon o arian i gadw ein cymunedau yn ddiogel.

**Andy Dunbobbin**
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru



**Andy Dunbobbin**
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
North Wales Police and Crime Commissioner



Uned Dronau / Drone Unit



SCCH / PCSO

As well as being your voice in policing, a key part of my role as the Police and Crime Commissioner for North Wales is to set the annual precept, which is the portion of Council Tax that pays for policing. The level I set the precept at determines the total amount of money available for policing in North Wales and is key to our mission of making it the safest place in the United Kingdom.

Following consultation with the public, the policing precept will increase by 5.14% for a Band D property. In other words, 31p per week (or £16.29 annually) for the financial year 2023-24. This is a below inflation rise, and the lowest increase in Wales. But even so, this decision has not been taken lightly as it is clear to me from responses to the consultation that many of us are feeling pressure from the cost-of-living crisis. All views were taken into account and are finely balanced against the need to provide sufficient funding – and the best value for money – in keeping the people of North Wales safe.

It's clear to me from speaking to people that they want to see our police service be as efficient, effective and as visible as possible. People also want to see an emphasis on rural and wildlife crime, preventing domestic abuse, protecting children and young people, and safeguarding vulnerable members of our society. Lastly, they want to see us address the root causes of offending and supporting rehabilitation of offenders. This message from residents also reflects the key priorities within my Police and Crime Plan of delivering safer neighbourhoods, supporting victims and communities, and a fair and effective criminal justice system.

I am extremely proud of the work and achievement of my office, the officers, staff and volunteers of North Wales Police and our partners. In the last year our achievements include:

- 10 new PCSO roles across North Wales.
- Success in a £1.5 million bid for funding from the Home Office to make streets safer in Holyhead, Wrexham and Deeside.
- Independent Domestic Violence Advocate services rolled out in Glan Clwyd and Wrexham Maelor hospitals to offer advice and support to victims of domestic abuse and sexual violence.
- The North Wales Women's Justice Strategy launched to help address the causes of female offending and cut crime.

With North Wales Police having to find £39 million of savings since 2010 – plus an additional £3.75 million found for 2023-24 – the increase in the precept for the coming financial year will help to fund several roles and initiatives. These include in custody detention, the coroner's office, scientific support, and in data. Forensic software will also be upgraded. An additional six Police Community Support Officer (PCSO) roles will be created.

From the robust and constructive scrutiny I have given North Wales Police on what will be delivered, I am assured that the policing precept strikes the right balance between affordability for council tax payers and ensuring North Wales Police has enough money to keep our communities safe.

**Andy Dunbobbin**
North Wales Police and Crime Commissioner

SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

**HEDDLU** GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES **POLICE**

PAN FYDD YN LLAI PWYSIG NA **999** | **101** | WHEN IT'S LESS URGENT THAN **999**

@NorthWalesPCC

@NorthWalesPCC

northwalesopcc

www.northwales-pcc.gov.uk

**Yn y daflen hon cewch ddadansoddiad sy'n dangos faint o'ch treth cyngor sy'n cael ei wario ar blismona a nodir yn fras ble mae eich arian yn mynd. Am wybodaeth bellach ynglŷn â chyllideb yr heddlu, ewch i'm gwefan:** www.northwales-pcc.gov.uk

## BETH YW EICH BARN CHI?

Mae'r Comisiynydd yn atebol i'r bobl ledled Gogledd Cymru ac mae bob amser yn awyddus i glywed barn pawb am faterion yn gysylltiedig â'r heddlu a throsedd. Os hoffech ddweud eich barn wrth y Comisiynydd, ffoniwch **01492 805486** neu e-bostiwch: **OPCC@nthwales.pnn.police.uk**. Gallwch hefyd fynd i'n gwefan: **www.northwales-pcc.gov.uk**

## SUT I GYSYLLTU Â HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Gallwch gysylltu â swyddogion drwy wefan Heddlu Gogledd Cymru: **www.northwales.police.uk**

Neu gallwch ffonio'r rhif difrys **101** neu **0300 330 0101**. Mewn argyfwng yn unig, ffoniwch **999**.

**This leaflet gives a breakdown of how much of your council tax is spent on policing and an indication of where your money goes. For more information about the police budget, please visit my website:** www.northwales-pcc.gov.uk

## WHAT DO YOU THINK?

The Commissioner is accountable to people across North Wales and is always eager to hear what they think about police and crime matters. If you want to share your views with the Commissioner, please contact **01492 805486** or email **OPCC@northwales.police.uk**. Alternatively, visit our website: **www.northwales-pcc.gov.uk**

## HOW TO CONTACT NORTH WALES POLICE

You can contact officers through the North Wales Police website: **www.northwales.police.uk**

Alternatively, you can ring the non-emergency number **101** or **0300 330 0101**. For emergencies only, call **999**.

**PRINT BRAS**. Mae'r daflen hon ar gael mewn print bras. I gael copi am ddim, ffoniwch **01492 805486**. **LARGE PRINT**. This leaflet is available in large print. For a free copy, simply call **01492 805486**.

# CYLLIDEB YR HEDDLU 2023-2024 Ble mae eich arian yn mynd?
# POLICE BUDGET 2023-2024 Where does your money go?

| | 2022-23 £'000 | 2023-24 £'000 | Fesul/per Band D* £ |
|---|---|---|---|
| **GWARIANT / EXPENDITURE** | | | |
| **Cyflogau - Swyddogion Heddlu**<br>**Pay - Police Officers** | 96,355 | 99,518 | 330.68 |
| **Cyflogau - Staff yr Heddlu**<br>**Pay - Police Staff** | 52,847 | 57,719 | 191.79 |
| **Pensiynau**<br>**Pensions** | 3,427 | 3,728 | 12.39 |
| **Costau Eraill Gweithwyr**<br>**Other Employee Costs** | 6,875 | 6,939 | 23.06 |
| **Costau Rhedeg Eraill**<br>**Other Running Costs** | 43,719 | 48,811 | 162.19 |
| **Cyfraniad i Wariant Cyfalaf**<br>**Contribution to Capital Expenditure** | 4,507 | 4,949 | 16.44 |
| **Gwariant Refeniw Gros**<br>**Gross Revenue Expenditure** | 207,730 | 221,664 | 736.55 |
| **Llai Incwm**<br>**Less Income** | -25,462 | -32,705 | -108.68 |
| **Gofynion y Gyllideb**<br>**Budget Requirement** | **182,268** | **188,959** | **627.87** |
| **ARIENNIR DRWY / FINANCED BY** | | | |
| **Grant Penodol yr Heddlu**<br>**Specific Police Grant** | 49,690 | 49,864 | 165.69 |
| **Grant Llawr**<br>**Floor Grant** | 22,204 | 22,517 | 74.82 |
| **Grant Cymorth Refeniw**<br>**Revenue Support Grant** | 16,260 | 16,107 | 53.52 |
| **Cyfran o Drethi Annomestig**<br>**Share of Non-Domestic Rates** | 253 | 227 | 0.75 |
| | **88,407** | **88,715** | **294.78** |
| **TRETH Y CYNGOR**<br>**COUNCIL TAX** | 93,861 | 100,244 | 333.09 |
| **Cyfanswm y Cyllid**<br>**Total Finance** | **182,268** | **188,959** | **627.87** |

## CYLLIDEB GYFALAF Y COMISIYNYDD 2023-2024

| **Gwariant Arfaethedig** | **£'000** |
|---|---|
| Cerbydau ac Offer | 1,931 |
| Gwaith Adeiladu | 7,184 |
| Offer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | 4,675 |
| | 13,790 |
| **Dull o Ariannu** | **£'000** |
| Grantiau Cyfalaf | 0 |
| Benthyca | 6,655 |
| Derbynebau Cyfalaf | 2,673 |
| Cyfraniad Refeniw a Balansau | 4,462 |
| | 13,790 |

## THE COMMISSIONER'S CAPITAL BUDGET 2023-2024

| **Proposed Expenditure** | **£'000** |
|---|---|
| Vehicles and Equipment | 1,931 |
| Building Works | 7,184 |
| Information Technology and Communication Equipment | 4,675 |
| | 13,790 |
| **Method of Financing** | **£'000** |
| Capital Grants | 0 |
| Borrowing | 6,655 |
| Capital Receipts | 2,673 |
| Revenue Contribution and Balances | 4,462 |
| | 13,790 |

## Faint o'ch arian treth cyngor sy'n cael ei wario ar blismona?

Mae naw band treth cyngor yng Ngogledd Cymru, sydd wedi'u seilio ar werth cyfalaf yr eiddo yn 2003.

*Band D yw'r dull Cenedlaethol o gymharu lefelau treth. Dim ond £333.09 o fil treth cyngor Band D sy'n cael ei glustnodi ar gyfer ariannu Gwasanaeth yr Heddlu yng Ngogledd Cymru, fel y cyntunwyd gan Gomsiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Felly, yn dibynnu ar fand eich eiddo chi, dyma faint o'ch bil treth cyngor fydd yn cael ei roi tuag at Wasanaeth yr Heddlu yng Ngogledd Cymru:

## How much of your council tax is spent on policing?

There are nine council tax bands in North Wales, based on the capital value of the property in 2003.

*Band D is used for National comparisons of tax levels. From a Band D Council Tax bill, only £333.09 is allocated to funding the Police service of North Wales, as agreed by the Police and Crime Commissioner for North Wales.

Therefore, depending on your property band, the amount from your Council tax bill which funds the Police Service of North Wales is as follows:

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **BAND A** | £222.06 | **BAND B** | £259.07 | **BAND C** | £296.08 | **BAND D** | £333.09 | **BAND E** | £407.11 |
| **BAND F** | £481.13 | **BAND G** | £555.15 | **BAND H** | £666.18 | **BAND I** | £777.21 | | |

## Cymharu lefel y Gyllideb Refeniw â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Gan ddefnyddio fformiwla a luniwyd ar gyfer pob Heddlu yng Nghymru a Lloegr, mae Llwyodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref wedi cyflwyno "safon gwariant" a elwir yn Asesiad Gwariant Safonol (AGS) a Grant yr Heddlu o £138.799m ar gyfer 2023-2024. Dyma yw asesiad y Llywodraeth o'r hyn y bydd angen i'r Comisiynydd ei wario er mwyn darapru'r un lefel o wasanaeth a chomisiynwyr eraill yng Nghymru os ydynt hwythau hefyd yn gwario yn unol â chyfanswm eu AGS a'u Grant Heddlu eu hunain.

Mae gan y Comisiynydd hawl i wario mwy na chyfanswm yr AGS a'r Grant Heddlu, gyda'r gwahaniaeth yn cael ei ariannu gan y Treth Cyngor neu o'r Cronfeydd wrth Gefn. Mae'r Comisiynydd wedi penderfynu ar ofyniad Cyllideb o £188.959m.

## Comparison of the level of the Revenue Budget with the Welsh Government's guidance


Using a formula developed for all Police Forces in England and Wales, the Welsh Government (WG) and the Home Office have issued a "spending norm" known as the Standard Spending Assessment (SSA) plus Police Grant of £138.799m for 2023-2024. This is the Government's assessment of the Commissioner's need to spend in order to provide the same level of service as other commissioners in Wales if they also spend at the level of their own SSA plus Police Grant.

The Commissioner is allowed to spend in excess of its SSA/ Police grant total, with the excess being funded from the Council Tax or Reserves. The Commissioner has set a Budget requirement of £188.959m.


## 1. O ble mae'r arian yn dod? 2. Beth ydych yn ei gael am eich arian?

## 1. Where does the money come from? 2. What do you get for your money?

**1.**




**2.**




**Amcangyfrif o gronfeydd wrth gefn ariannol y Comisiynydd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol**
**The Commissioner's estimated financial reserves at the end of the financial year**

| 2022-2023 | 2023-2024 |
|---|---|
| £48.186 miliwn/million | £35.465 miliwn/million |

## Lle allwch chi gael mwy o fanylion?

**Cysylltwch â:**
Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW

**Ffôn:** 01492 805486
**E-bost:** OPCC@northwales.police.uk

## Where can you get more details?

**Please contact:**
Office of the Police & Crime Commissioner North Wales
Glan y Don, Colwyn Bay LL29 8AW

**Tel:** 01492 805486
**Email:** OPCC@northwales.police.uk